

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Esther:

Y Frenhines Ddewr

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair - llyfrau yn y gyfres:

Porthi'r Pum Mil	Iesu'r Meddyg
Gideon - yn ymladd dros Dduw	Dafydd: bugail a brenin
Y Nadolig	Elias: negesydd Duw
Teulu Newydd Ruth	Nadolig: Goleuni'r Byd
Moses - Y Dywysoges a'r Baban	Jona: Proffwyd Anfodlon
Pasg – Iesu'r Brenin	Iesu'n croesawu pawb
Samuel – Duw yn siarad â Samuel	Y Pasg: y daith fawr
Pentecost – Newyddion Da lawn	Jeremeia: proffwyd mewn twll
Daniel – yn ffau'r Llewod	Paul: yn cyfarfod Iesu
Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas	Moses: Y Deg Gorchymyn
Dechrau'r byd: Hanes y Creu	Iesu: y Ffrind Gorau
Iesu'n dangos ei allu	Solomon: y brenin doeth
Joseff yn yr Aifft	Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da
Y Nadolig: Rhodd Duw	Nadolig: O'r nef y daeth
Iesu: Ffrind mewn angen	Josua: yr arweinydd newydd
Moses: Gadael yr Aifft	Iesu'r athro da
Y Pasg: trwy lygaid Pedr	Y Pasg: "Gorffennwyd"
Abraham: ffrind Duw	Esther: y frenhines ddewr
Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys	Pentecost: yr Ysbryd Glân yn dod
Y Beibl: Stori Fawr Duw	Dafydd: bardd a brenin (Salmau)

Esther: Y Frenhines Ddewr © Cyhoeddiadau'r Gair 2011

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 978 1 85994 687 9
Argraffwyd yng Nghymru.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwersi, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Esther

Un o'r pethau sy'n gallu creu trafferth i rieni yw dewis enw i'r babi! Rydym ni wedi gorfod mynd trwy hyn bedair gwaith, ac mae 'na hanes tu ôl i enw bob un o'n plant. Wna' i ddim eich diflasu gyda'r manylion, dim ond dweud bod 'ystyr' yr enw wedi bod yn ystyriaeth bwysig iawn i ni yn y gorchwyl yma. Dwi'n cofio fel plentyn bod mor falch i ddarganfod mai ystyr yr enw 'Sarah' yw 'tywysoges'!!! Felly, daeth gwên i'm hwyneb pan ddarganfyddais mai ystyr yr enw 'Esther' yw 'seren' - oherwydd dyna air addas ofnadwy i'r arwres sy'n destun gwersi'r gyfres hon.

Mae hanes Esther wedi'i leoli ym Mhersia, ychydig wedi i Bersia oresgyn Babilon fel y grym pennaf yn y Dwyrain Agos. Mae llyfr Esther yn olrhain hanes yr Iddewon a oedd wedi cael eu caethgludo i Fabilon ac wedi dewis peidio dychwelyd i Jwda, er y rhyddid a gawsant gan awdurdodau Persia. Mae'r Brenin Ahasferus yn cael ei adnabod yn well fel y Brenin Xerxes, felly mae'n debyg bod dyddiad y digwyddiadau rhwng 486 - 465 CC.

Trwy gyfres o ddigwyddiadau daeth Esther yn wraig i'r Brenin. Yn y cyfamser, roedd Haman yn ceisio hil-laddiad yr Iddewon, a hynny oherwydd ei fod yn casáu Mordecai, cefnder Esther. Mae'n sicrhau cytundeb y brenin drwy ei berswadio fod yr Iddewon yn her i sefydlogrwydd ei deyrnas. Ond, trwy amryw droeon mae'r dinistr yn cael ei osgoi, achubir y genedl, ac yn wir mae'r cyfan yn troi yn erbyn Haman a'i gyd-gynllwynwyr.

Nodwedd ddiddorol yw absenoldeb enw Duw o dudalennau'r llyfr, ond er na cheir ei enw, eto mae ei ddylanwad i'w weld yn ganolog i'r hanes i gyd. Nid cyd-ddigwyddiad barodd i'r frenhines Ffasti gael ei gwrthod gan y brenin, a bod Iddewes, Esther, yn cymryd ei lle; bod Mordecai wedi gwneud cymwynas â'r brenin cyn i gynllwyn Haman ddeor; bod y brenin wedi cofio hynny ar yr union adeg sy'n sicrhau cwmp Haman ag achubiaeth yr Iddewon.

Un o'r adnodau mwyaf cyfarwydd yn y llyfr yw - "... Os byddi'n gwrthod siarad yn awr, daw ymward a chymorth i'r Iddewon o le arall, ond byddi di a thŷ dy dad yn trengi. Pwy a wŷyr nad ar gyfer y fath amser â hwn y daethost i'r frenhiniaeth?" 4:14. Roedd Esther mewn safle arbennig i ddadlau achos ei phobl, ond i wneud hynny, roedd rhaid iddi beryglu ei bywyd. Dadl Mordecai yw mai dyma, o bosib', pam ei bod wedi dod yn frenhines. Mae dewrder a ffydd Esther yn allweddol i ganlyniad yr hanes, ac i'r fuddugoliaeth sy'n deillio o'r dewrder hwnnw. Yn hyn, cawn gysgod rhyfeddol o waith achubol Iesu, un a oedd yn barod i ddadlau ein hachos, yn barod, nid yn unig i beryglu ei fywyd, ond i roi ei fywyd dros bechaduriaid. Mae'n sefyll rhwng y Brenin tragwyddol a phechaduriaid, gan roi ei fywyd i sicrhau ein buddugoliaeth ni.



Wrth inni geisio cyflwyno hanes y 'seren' yma i'r plant, gweddiwn am gymorth yr Ysbryd Glân i gymhwyso'r hanes i fywydau'r plant a'r bobl ifanc. Gweddiwn hefyd am gymorth i ymddiried yn ein Duw, sydd ar waith o'n mewn ac o'n cwmpas er nad yw ei gynlluniau bob amser yn glir neu'n ddealladwy. Diolch yn fawr i Nia Williams am baratoi'r Gwasanaeth Teuluol.

Rhestr Adnoddau

Llyfrau stori

Esther - Cyfres Fi Hefyd gan

Angharad Tomos - £1.25



Y Pasg: Beiblau Lliw

Beibl Newydd y Plant, tud. 105-107

Beibl Lliw y Plant, tud. 168 – 171

Y Beibl i Blant mewn 365 o storiâu, tud. 256 - 259

Beibl Newydd y Storiwr, tud.78

Cyfres y Beibl Fideo

Ar gael gan Cyngor Ysgolion Sul



Oed Meithrin – 5 Esther - Llyfr Esther

Amcanion

- ❖ I gyflwyno hanes Esther;
- ❖ I gyflwyno'r syniad bod Duw yn gofalu am ei bobl;
- ❖ I sylweddoli fod gan Esther rôl benodol yng nghynllun Duw i achub ei bobl.

AMSER CHWARAE

1. Chwarae rôl – Priodas

Bydd angen lluniau o briodasau - o rieni'r plant os yn bosibl - dillad gwisgo i fyny ar gyfer priodas neu ddoliau.

Dangoswch y lluniau i'r plant a'u trafod. Anogwch y plant i rannu eu profiadau o fod mewn priodas.

Yna, gadewch i'r plant 'chwarae priodas' gyda'r dillad neu'r doliau.

Esboniwch ein bod am glywed am briodas yn ein stori wir o'r Beibl heddiw.

2. Pan mae pethau'n mynd o le!

Bydd angen copi o Atodiad 1, wedi'i chwyddo a'i liwio os yn bosibl. Amrywiaeth o eitemau sydd wedi torri e.e. doli heb fraich, car heb olwyn, llyfr heb glawr, hosan â thwll ynddi.

Treuliwch amser yn edrych ar y lluniau a'u trafod. Beth sydd o'i le ymhob llun? Tybed sut mae'r plant yn teimlo? Pwy fyddai'n medru helpu ymhob sefyllfa?

Edrychwch ar yr eitemau sydd wedi torri a thrafod ar yr un pryd, beth sydd o'i le a sut i gywiro pob un.

Esboniwch ein bod am glywed hanes o'r Beibl pan oedd rhywbeth mawr o'i le ac roedd yn rhaid i Esther helpu datrys y broblem gyda chymorth Duw.

3. Gêm 'Teyrnwialen'

Bydd angen y llun o'r deyrnwialen o'r GDD a 'theyrnwialen' o'r Adran Grefft.

Dangoswch lun y deyrnwialen i'r plant. Esboniwch ei bod yn perthyn i'r Frenhines Elisabeth. Eglurwch ei bod yn arwydd o awdurdod a phŵer y brenin neu'r frenhines ac er nad yw'n cael ei ddefnyddio llawer heddiw, roedd yn cael ei ddefnyddio amser maith yn ôl. Byddai'r brenin yn codi'r deyrnwialen i ddangos pwy oedd yn cael siarad gydag ef, neu pwy oedd yn cael mynd yn agos ato.

Gofynnwch i'r plant i symud o amgylch yr ystafell nes eich bod yn cyfri' i 3. Yna, bydd rhaid iddynt wyllo i weld at bwy fyddwch chi'n pwyntio'r deyrnwialen, a bydd y person hwnnw/honno'n gorfod cyflawni tasg syml, e.e. gwneud pum naid, cyffwrdd eu traed, troi o gwmpas a chwifio dwylo ayyb.

Atgoffwch y plant fod gan y brenin yn hanes Esther deyrnwialen a'i fod wedi dangos bod Esther yn cael dod ato trwy ei hestyn tuag ati.

4. Pethau sy'n ein cadw'n ddiogel

Bydd angen y lluniau o Atodiad 2.

Edrychwch ar y lluniau a'u trafod. Ydy'r plant yn medru meddwl am bethau eraill sy'n ein cadw'n ddiogel?

Gosodwch y lluniau ar y waliau o amgylch yr ystafell. Gofynnwch i'r plant i wrando wrth i chi ddisgrifio un o'r eitemau, i ddewis pa beth sy'n cael ei ddisgrifio ac i symud i sefyll wrth y llun perthnasol. Cofiwch ganmol y plant am wneud dewisiadau cywir.



Oed Meithrin – 5 Esther - Llyfr Esther

AMSER STORI

1. Esther yn cael ei dewis i fod yn Frenhines - Esther 1, 2

Bydd angen Beibl Newydd y Plant a dillad gwisgo i fyny.

Darllenwch hanes 'Esther Hardd' i'r plant o Feibl Newydd y Plant.

Wedyn, gofynnwch i rai o'r plant i wisgo i fyny ac i feimio wrth i chi adrodd yr hanes, eto yn eich geiriau eich hun. Treuliwch amser yn meimio paratodau Esther cyn y briodas. Pwysleisiwch fod pethau'n mynd yn dda i Esther ar ddechrau'r hanes. Gofynnwch i'r plant pam fod Esther wedi gofyn i'w phobl weddio drosti? Atgoffwch y plant fod Duw'n gofalu am ei bobl ac yn medru eu helpu. Roedd Duw am i Esther wneud rhywbeth arbennig iawn i helpu hefyd.

2. Esther yn gwneud penderfyniad - Esther 4, 5

Bydd angen Beibl Newydd y Plant, 4 llwy bren a'r lluniau o Atodiad 3 i greu 4 pyped. Lliwiwch y lluniau a'u torri allan o flaen llaw. Bydd angen blutac.

Darllenwch yr hanes o dudalen 106, 'Esther yn achub pobl Dduw.'

Wedyn, dangoswch y lluniau a gofynnwch i'r plant a ydynt yn medru dyfalu pwy yw'r bobl (Esther, Moredecai, Y Brenin Ahasferus, Haman). Glynwch bob llun i lwy bren gyda'r blutac, i greu 'pyped.'

Defnyddiwch y 'pypedau' wrth ail adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun. Anogwch y plant i wneud sŵn 'hiss' bob tro y byddant yn clywed enw Haman.

Gofynnwch i'r plant sut, yn eu tyb nhw, oedd Esther a Mordecai'n teimlo o wybod bod eu pobl yn ddiogel?

Sut oedd Esther yn teimlo wrth fynd at y Brenin?

Mae'n rhaid eu bod yn falch iawn bod Duw wedi eu cadw'n ddiogel.



Oed Meithrin – 5 Esther - Llyfr Esther

AMSER CREFFT

1. Masg Esther

Bydd angen paratoi masg o flaen llaw ar gyfer pob plentyn gan ddefnyddio Atodiad 4. Hefyd, bydd angen stribedi o gerdyn tenau a thâp-selo/ styffylwr i osod ar ochrau'r masg er mwyn ei ddal o amgylch pen y plant.

Gadewch i'r plant liwio'r masg yn ofalus. Efallai yr hoffech ludo darnau o edafedd yn wallt a phapur lliwgar/sgleiniog yn emau. Cofiwch beidio â gludo gormod ar y masg a'i wneud yn rhy drwm!

Cofiwch sgwrsio gyda'r plant am hanes Esther yn cael ei dewis i fod yn wraig i'r brenin ac am yr holl baratoadau cyn y briodas wrth i chi weithio. Mae'r Iddewon yn dathlu hanes Esther bob blwyddyn yn ystod Gŵyl 'Purim'. Mae'r plant yn aml yn gwneud masgiau o brif gymeriadau'r hanes ar gyfer y dathliadau.

2. Ti'n Seren!

Ystyr yr enw Esther yw seren! Felly beth am ddefnyddio un o'r syniadau canlynol i helpu'r plant i gofio hyn. Efallai y bydd y plant yn gyfarwydd â'r dywediad 'Ti'n seren', sy'n golygu bod y person sy'n cael ei gyfeirio ato/ati yn arbennig.

❖ Addurno bisgedi siâp seren, a'u rhoi mewn bag bach yn anrheg i rywun. Ysgrifennwch 'Ti'n seren' ar y bagiau a'u haddurno gyda sgleiniau a 'glitter'.

❖ Creu cerdyn cyfarch gyda llun seren ar y clawr a'r geiriau 'Ti'n seren' y tu mewn. Gwnewch amlinelliad siâp seren ar y clawr gyda glud a thaenellu 'glitter' drosto;

❖ Gludwch brennau lolipop at ei gilydd ar siâp seren, a'u gorchuddio gyda 'glitter'. Gosodwch ddarn o edafedd/rhuban er mwyn eu hongian;

❖ Ffrâm llun siâp seren. Bydd angen 3 triongl yr un maint ar gerdyn i bob plentyn, llun o bob plentyn (a chaniatâd i'w torri), glud, siswrn a rhuban. Torrwch ffrâm ar un triongl a'i osod ar

ben y llun. Torrwch y llun. Gludwch driongl arall ar gefn y llun - fel 'brechdan', gyda'r llun yn y canol! Gludwch y triongl olaf ben i waered ar y cefn i greu siâp seren. Tapiwch ddarn o ruban i hongian y llun. Ysgrifennwch 'Ti'n seren' ar y ffrâm ar y blaen.

3. Pypedau llwy bren

Bydd angen y lluniau o Atodiad 4, llwyau pren, glud, darnau o ddefnydd a gwllân. Byddai'n syniad torri'r lluniau o flaen llaw. Does dim angen i'r plant greu 4 pyped yr un - cewch benderfynu sawl pyped sydd o fewn eich cyrraedd!

Cynorthwywch y plant i gofio enwau'r prif gymeriadau o hanes Esther a rhyw ffaith amdanynt. Ar ôl dewis pa gymeriad yr hoffent greu, cynorthwywch y plant i liwio / addurno'r lluniau cyn eu gludo ar lwy. Os hoffech, cewch ddefnyddio wynebâu'r cymeriadau yn unig a defnyddio defnydd neu bapur lliwgar i greu 'dillad' i'r pypedau. Ar ôl gorffen, anogwch y plant i ddefnyddio'r pypedau i'ch helpu i ail-adrodd yr hanes.

4. Teyrnwialen y Brenin

Bydd angen tiwb cardfwrdd ar bob plentyn (nid tiwb papur tŷ bach), cylchoedd o gerdyn i greu'r glôb ar ben y wialen, papur crêp, papur sgleiniog wedi ei dorri'n siâp diemwnt, rhuban/papur lliw aur.

Cynorthwywch y plant i

- ❖ Orchuddio'r tiwb gyda phapur crêp
- ❖ Gosod 'diemwntau' a rhuban aur
- ❖ Gludo'r 'glôb' ar ben y wialen.

Atgoffwch y plant fod y deyrnwialen yn arwydd o awdurdod y brenin. Byddai'r brenin yn cyfeirio'r deyrnwialen at bobl er mwyn iddynt ddeall pwy oedd yn cael dod ymlaen i siarad gydag ef.

Gadewch i'r plant chwarae gêm syml gan ddefnyddio'r deyrnwialen. Gofynnwch i un plentyn ar y tro i chwarae rôl y brenin, i gyfeirio at blentyn arall ac i ofyn iddo/hi gyflawni tasg syml.



Oed Meithrin – 5 Esther - Llyfr Esther

AMSER CANU A GWEDDÏO

Cân

I'r dôn: 'Cariad Iesu Grist' (Caneuon Ffydd)

Os dwi'n teimlo'n sâl
Os dwi ddim yn cael
Os yw'n anodd byw
Medraf ddod at Dduw.

Pân dwi'n teimlo'n flin
Ac mae'n job fy nhrin;
A bywyd yn ddi-liw
Medraf ddod at Dduw.

Os dwi'n hapus iawn
Os yw'r bwrdd yn llawn
Y gyfrinach yw,
Medru dod at Dduw.

Anogwch y plant i greu ystumiau i gyd-fynd
â'r geiriau.

Gweddi

Diolch am fy ngharu

Bydd angen drych.

Daliwch y drych o'ch blaen a syllu ar eich
adlewyrchiad gan ddweud pethau fel "Wel,
dyma berson hardd," neu "Dwi'n hoffi'r person
yma'n fawr!" Wrth gwrs, bydd y plant yn deall
eich bod yn siarad amdanoch chi'ch hun.
Atgoffwch y plant fod Esther yn ddynes hardd
iawn. Eglurwch ein bod i gyd yn bobl hardd i
Dduw. Mae Duw wedi ein creu yn bobl ryfeddol
ac arbennig iawn. Adroddwch weddi syml, gan

edrych yn y drych, yn diolch i Dduw am eich
caru. Wedyn, estynnwch y drych i'r plant yn
eu tro gan eu hannog i ail adrodd y weddi
wrth edrych arnyn nhw eu hunain.

·Diolch am ofal Duw

Bydd angen dau blât papur.

Atgoffwch y plant ein bod yn medru siarad
gyda Duw am unrhyw beth sy'n digwydd i ni -
pethau da a phethau sydd ddim mor dda.
Tynnwch lun wyneb hapus ar un plât a
gofynnwch i'r plant beth sy'n eu gwneud yn
hapus. Dywedwch weddi yn diolch i Dduw am
y pethau a restrwyd. Wedyn, tynnwch lun
wyneb trist ar y plât arall, a gofyn beth sy'n
tristau'r plant gan weddio dros rheiny hefyd.

Rhigwm 'Mae Duw'n gofalu amdanaf'

Bydd angen y lluniau o Atodiad 1.

Trafodwch beth sy'n digwydd ymhob llun
gyda'r plant, gan eu holi pwy fyddai'n medru
bod o gymorth i'r plant yn y lluniau. Gadewch
i'r plant siarad am brofiadau tebyg.
Dysgwch y llinell 'Mae Duw'n gofalu amdanaf'
i'r plant.

Defnyddiwch syniadau'r plant o'ch sgwrs i
ffurfio brawddegau gyda'r plant yn ymateb i
bob un gyda'r llinell, 'Mae Duw'n gofalu
amdanaf', e.e. Os dwi wedi syrthio a brifo fy
mhen-glin..... 'Mae Duw'n gofalu amdanaf.'
Efallai yr hoffech gael y plant i weiddi'r ymateb
neu i ddwrddio'r awyr wrth ymateb!

AMSERLEN

Wythnos 1: Amser Chwarae 1; Stori 1; Crefft 1 neu 2; Gweddi;

Wythnos 2: Amser Chwarae 2 neu 3; Stori 2; Crefft 3; Rhigwm;


Wythnos 3: Amser Chwarae 4; Stori 3a; Crefft 4; Cân.



Taflen 1 Esther - Llyfr Esther


Dewisodd y Brenin Esther i fod yn frenhines.

Lliwia'r masg o Esther a'i dorri allan. Beth am ludo gwlân lliwgar ar ei gwallt a sgleiniau ar ei choron?





Beth sy'n digwydd yn y lluniau yma? Pwy sy'n medru helpu ymhob sefyllfa?




Pwy arall sy'n medru ein helpu bob amser?



6 - 11 oed Esther - Llyfr Esther

Amcanion

- ❖ I gyflwyno hanes Esther
- ❖ I ystyried dewrder Esther a gofal Duw
- ❖ I ystyried hanes Esther yn achub pobl Dduw ochr yn ochr â hanes Iesu'n achub ei bobl



Cân i'r gyfres

'Bendigedig enw yr Iôr' (*Tyrd i Ddathlu*)

Adnod i'r Gyfres

Salm 18:3: 'Gwaeddaf ar yr Arglwydd sy'n haeddu mawl, ac fe'm gwaredir rhag fy ngelynion.'

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Byddwch yn barod!

Bydd angen darnau o bapur â llinellau, pensiliau a gwobr fechan.

Rhannwch y plant yn barau gyda phapur a phensel. Esboniwch eich bod am iddynt feddwl am baratoi ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau ac i ysgrifennu 3 pheth y byddant eu hangen ar y llinell gyntaf. Wedyn, yn syth ar ôl gorffen, bydd rhaid i un ohonynt redeg atoch - byddwch wedi mynd i eistedd/sefyll ym mhendraw'r ystafell - i ddangos yr atebion. Bydd y person cyntaf sy'n cyrraedd gyda rhestr gywir yn ennill pwyntiau.

Dyma rai syniadau: parti plentyn bach; cystadleuaeth pêl-droed; gala nofio; arholiad telyn/piano; siopa bwyd; taith i'r sinema; ymweliad gan ffrindiau 'posh' am swper.

Ar ôl chwarae a chyflwyno'r wobwr, trafodwch y gwahanol adegau pan mae'n bwysig paratoi'n ofalus. Esboniwch fod y person yn ein hanes heddiw wedi gorfod paratoi – a

hynny am flwyddyn gyfan – cyn digwyddiad pwysig iawn!

2. Gêm M & S

Mae'r gêm hon wedi ei henwi ar ôl siop enwog!

Rhannwch y plant yn ddau dîm, neu fwy. Dylai'r plant eistedd yn eu timoedd ar un ochr yr ystafell, a'r arweinydd ar ochr arall yr ystafell. Nod y gêm yw cael person i gyflwyno eitem a benodir gan yr arweinydd, i'r arweinydd!

Dyma rai enghreifftiau: rhywbeth yn dechrau gyda'r llythyren...; rhywbeth sy'n cael ei wisgo ar fraich; rhywbeth du/brown/melyn; rhywbeth sgleiniog; rhywbeth meddal/caled/hir/crwn; rhywbeth â llun y frenhines arno; rhywbeth sy'n cael ei wisgo ar eich pen; esgid; hosan; siwmpwr.

Mae'r arweinydd yn galw enw un eitem, gan ddechrau gyda'r cymal 'Dwi'n mynd i siopa



FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

er mwyn cael...', ac mae'r plant yn ceisio bod y cyntaf i ddod â'r eitem hwnnw iddo/iddi. Efallai yr hoffech benodi un person o bob tîm i fod yn 'redwr' ond fe fydd yn hwyl os caiff pawb ymgeisio unwaith! Cadwch y sgôr, gan roi pwyntiau i'r tîm cyntaf i gyrraedd bob tro.

Yn ein stori wir o'r Beibl heddiw byddwn yn clywed am frenin a benderfynodd ei fod eisiau gwraig a sut y cafodd hyd i wraig arbennig iawn.

3. Gêm Paratoi Gwledd

Bydd angen amrywiaeth o eitemau ar gyfer gosod bwrdd, e.e. lliain bwrdd, cyllell, fforc, llwyau, platiau, cwpanau, halen a phupur, napcynau, canhwylau(!) ayyb. Bydd angen yr un eitemau ar gyfer bob tîm.

Rhannwch y plant yn dimoedd a'u gosod i sefyll gyferbyn â'r eitemau ar gyfer y 'wledd.' Nod y gêm yw bod pob tîm yn casglu'r eitemau a gosod y bwrdd yn daclus ar gyfer pryd o fwyd. Mae'n rhaid i un aelod ar y tro deithio at yr eitemau, casglu un a'u cludo at y tîm. I wneud pethau'n anoddach, fe allwch ofyn i'r plant i sgipio, i gerdded neu i sboncio.

Rhowch bwyntiau i'r tîm cyflymaf ac i'r tîm sydd â'r bwrdd taclusaf.

Efallai yr hoffech chwarae sawl rownd.

Esboniwch eich bod am glywed hanes gwir o'r Beibl am frenin a gynhaliodd wledd enfawr ar gyfer ei wraig newydd. (Esther 2:18)

4. 'Pictionary' Pobl sy'n ein helpu

Chwaraewch y gêm gyfarwydd hon gyda bwrdd gwyn neu ar bapur.

Rhannwch y plant yn dimoedd neu barau, a'u gwahodd, un tîm ar y tro, i geisio tynnu llun un o'r bobl ganlynol.

Rhowch wobwr fechan i'r tîm sy'n dyfalu ar y diwedd beth yw'r cysylltiad rhwng y bobl sydd wedi eu henwi yn ystod y gêm.

Dyma rai syniadau: deintydd; meddyg; dyn tân; dyn ambiwlans; nyrs; athro/athrawes; dyn bad achub; gofalwr siop; llyfrgellydd; dyn llaeth; postmon; pobl casglu sbwriel; achubwr pwll nofio.

Esboniwch cyn cychwyn mai enwau swyddi sy'n cael eu darlunio.

Eglurwch y byddwch yn clywed hanes gwir o'r Beibl am ddynes a wnaeth rhywbeth anhygoel er mwyn ceisio achub ei phobl rhag perygl ofnadwy.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

1. Esther yn cael ei dewis, a chynllwyn Haman - Esther 1-4

Bydd angen y Llinyn Amser, Beiblau, a Beibl Newydd y Storiwr neu Feibl Lliw y Plant.

Byddwn yn gorffen yr hanes cyn darganfod beth yw ymateb Esther i gais ei hewythr. Mordecai (4:8).

Treuliwch amser yn edrych ar y llinyn amser am luniau o ferched, a thrafodwch pwy ydynt a beth y mae'r plant yn cofio amdanynt. Nodwch yn arbennig y rhai a wnaeth ymddiried yn Nuw mewn ffyrdd penodol;

Dangoswch lyfr Esther yn y Beibl i'r plant a'u cynorthwyo i ddod o hyd i'r llyfr eu hunain.

Darllenwch yr hanes o un o'r Beiblau Plant.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol iddynt gan eu cynorthwyo i ddod o hyd i'r atebion yn y Beibl. Byddai'n dda rhannu'r plant yn grwpiau llai ar gyfer y gweithgarwch hwn gydag oedolyn i'w cynorthwyo. Byddwch yn barod i roi ychydig o eglurhad rhwng bob cwestiwn.

Beth yw enwau'r Brenin a'r Frenhines?
Esther 1:10,11

Beth wnaeth y Frenhines Fashti a sut gafodd ei chosbi?
Esther 1:12,19

Beth oedd enw'r Iddew a oedd yn byw ym Mabilon?
Esther 2:5

Beth oedd enw cyfnither Mordecai, a beth oedd yn arbennig amdani?
Esther 2:7

I ble gafodd Esther ei chymryd?
Esther 2:8

Beth oedd Mordecai wedi rhybuddio Esther i beidio â dweud wrth neb?
Esther 2:10

Beth oedd ymateb y Brenin i Esther?
Esther 2:17

Beth ddarganfyddodd Mordecai?
Esther 2:21,22

Beth oedd enw'r prif Weinidog newydd?
Esther 3:1

Pam fod Haman wedi gwylltio gyda Mordecai?
Esther 3:5,6

Sut gafodd Haman ddial ar Mordecai a'r Iddewon?
Esther 3:13

Beth ofynnodd Mordecai gan Esther?
Esther 4:6-8

Beth oedd ymateb Esther?
Esther 4:15

Esboniwch fod pobl yn ymrydio er mwyn dangos i Dduw eu bod yn troi ato am gymorth.

Pam fod Esther yn troi at Dduw nawr?
Esther 4:11

Cymhwyso

Defnyddiwch daflen 4 neu 6 i gymhwyso'r hanes.

Y prif bwyntiau yw:

❖ Roedd Duw wedi rhoi Esther ym mhalas y brenin am reswm



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

❖ Roedd Esther yn barod i beryglu ei bywyd er mwyn achub ei phobl.

2. Esther yn achub pobl Dduw - Esther 4 – 8

Bydd angen taflen waith 2 o'r Adran Meithrin - 5, Beibl Newydd y Storiwr.

Dangoswch y daflen i'r plant, wedi'i phlygu yn ei hanner, fel mai llun Esther yn unig sydd i'w weld. Gofynnwch i'r plant beth maent yn ei gofio am Esther, a'u gwahodd i ysgrifennu eu hatebion o amgylch y llun. Cewch ddefnyddio rhai o'r cwestiynau uchod fel sbardun.

Darllenwch yr hanes o 'Beibl Newydd y Storiwr', gan ddilyn y cyfarwyddiadau sydd yng nghefn y llyfr ar gyfer yr hanes hwn.

Cymhwyso a Dysgu Adnod

Mathew 1:21: 'A gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau.'

Ysgrifennwch yr adnod ar ffurf '*hangman*' a rhannwch y plant yn ddau dîm i chwarae'r gêm a ffurfio'r adnod. Darllenwch dros yr adnod sawl tro ac esbonio mai dyma eiriau'r angel wrth Joseff cyn genedigaeth y baban Iesu.

Beth wnaeth Iesu dros ei bobl, yn ôl yr adnod? Ydy'r plant yn cofio sut y gwnaeth Iesu achub ei bobl o'u pechodau?

Beth yw'r cysylltiad rhwng yr adnod hon a hanes Esther? *Gwaredodd Esther ei phobl trwy beryglu ei bywyd ei hun wrth bledio eu hachos o flaen y brenin Ahasferus. Roedd*

Iesu'n fodlon marw er mwyn achub ei bobl o gosb pechod.

Beth ddigwyddodd i Haman - gelyn Mordecai a'r Iddewon? *Mae 'na gliw yn ffurf y gêm.*

Beth sydd wedi digwydd i'n pechodau? Mae Iesu wedi cael gwared ohonyn nhw! (Hebreaiad 9:26).

Byddai'n dda gweddïo gyda'r plant cyn gorffen. Gweler yr Adran 'Gweithgareddau Ychwanegol' am syniadau.



SYNIADAU CREFFT

1. Bisgedi Haman – Oznei Haman (clustiau Haman!)

Roedd Haman, gweinidog y brenin, am ladd yr Iddewon a chafodd ganiatâd gan y brenin i grogi'r Iddewon oll. Er mwyn darganfod pa ddiwrnod yr oedd y duwiau eisiau i Haman ladd yr Iddewon, bwriodd goelbren ac fe syrthiodd honno ar y pedwerydd ar ddeg o'r mis Hebreig, Adar. Dyma ddyddiad y Pwrim ym mis Mawrth bob blwyddyn.

“Pwr” yw'r Hebraeg am goelbren a “Pwrim,” “coelbrenau”.

Mae Iddewon yn dathlu'r wyl Pwrim bob blwyddyn i gofio hanes Esther yn achub ei phobl.

Yn rhan o'r dathliadau, mae'r plant yn pobi bisgedi trionglog sy'n cynnwys llenwad wedi'i wneud o hadau, siocled, cnau neu ddatys.

Cynhwysion

3 wy, 200g siwgr mân, 175ml olew llysiâu, 2 ½ llwy de o fanila 'extract,' 110ml sudd oren, 675g blawd plaen, 1 llwy fwrdd soda pobi, 300g o jam.

Dull

Cynheswch y popty i 180C/ Nwy 4. Irwch duniau pobi.

Cymysgwch yr wyau a'r siwgr mewn powlen fawr nes yn ysgafn. Ychwanegwch yr olew, fanila a'r sudd oren.

Cymysgwch y blawd a'r soda pobi cyn ychwanegu'r cymysgedd wy a'i droi nes yn does cryf. Pan fydd y toes wedi oeri, rhaid ei rolïo ar wyneb â blawd arno hyd nes ei fod yn 0.5 cm o drwch. Torrwch i gylchoedd gan

ddefnyddio torrwr neu wydr a'i roi ar y tuniau pobi.

Rhowch tua un llwy de o jam yng nghanol pob cylch a phigo'r ochrau i greu tri chornel. Pobwch am 12-15 munud nes yn frown euraidd. Yna, rhaid ei roi ar rac weiren i oeri.

2. 'Gragger'



Traddodiad arall sy'n gysylltiedig â Gŵyl Pwrim yw creu 'Gragger' – ratl swnllyd sy'n cael ei ysgwyd bob tro y mae enw Haman i'w glywed yn ystod darlleniad o hanes Esther.

Bydd angen bocs bach a hen bensel neu gansen gardd denau tua 20cm o hyd ar bob plentyn, tâp masgio, pinnau ffelt, reis neu ffa sych.

- ❖ Rhoi ychydig o reis/ffa yn y bocs a'i dapio ar gau.
- ❖ Gorchuddio'r bocs gyda'r tâp masgio
- ❖ Addurno'r bocs
- ❖ Gwneud dau dwll i'r bensel/gansen
- ❖ Rhoi tâp i ddal y bensel/gansen yn ddiogel.

Darllenwch yr hanes o Feibl plant gyda'r plant yn chwifio eu 'gragger' bob tro y clywir enw Haman!



SYNIADAU CREFFT

3. Gweld sêr!

Ystyr enw 'Esther' yw 'seren,' - dyma ddau syniad am weithgareddau ar thema 'sêr.'

❖ Mae Duw'n gofalu - Poster

Defnyddiwch ddarn o gerdyn trwchus maint A4 yn gefndir. Gofynnwch i'r plant ysgrifennu'r teitl yn y canol – 'Mae Duw'n gofalu.'



Rhowch bapur aur/arian i'r plant a thempled siâp seren. Gofynnwch iddynt feddwl am y gwahanol ffyrdd y mae Duw'n gofalu amdanynt ac i dynnu lluniau ar y cerdyn cefndir sy'n ddigon bach i gael eu gorchuddio gan y sêr. Wedi tynnu lluniau - bydd 4 neu 5 llun yn ddigon - cânt ludo seren drostynt. Dylid rhoi glud ar big uchaf y sêr yn unig fel ei bod yn bosibl eu codi i weld y lluniau.

❖ Symudun - Ti'n seren!

Bydd angen sribed o gerdyn hyd tua 50cm, wedi'i dapio i ffurfio cylch, siapau sêr, edafedd, offer tynnu llun, tâp-selo.

Anogwch y plant i gofio beth oedd yn arbennig am Esther, ac esbonio mai ystyr ei henw hi yw 'seren.' Yn aml, bydd pobl yn defnyddio'r

ymadrodd 'Ti'n seren' i ganmol neu i dynnu sylw at nodweddion arbennig.

Anogwch y plant i feddwl am ddoniau ei gilydd ac i dynnu llun neu ysgrifennu gair perthnasol ar un o'r siapiau cyn gosod darn o edafedd arno a'i dapio ar y cylch. Gludwch siapiau sêr o amgylch y cylch hefyd. Anogwch y plant i addurno'r sêr yn ddeniadol. Tapiwch ddarn o edafedd i'r cylch er mwyn ei hongian. Gofynnwch i'r plant i ysgrifennu'r teitl 'Ti'n seren' ar y sêr sydd o amgylch y cylch cyn eu hongian mewn lle amlwg.

Byddai'n dda gweddïo gyda'r plant, gan ddiolch i Dduw amdanynt ac am y nodweddion arbennig a gyfeiriwyd atynt ar y symudyn.




GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Gêm 'Tip Haman'

Bydd angen swp o gardiau bach gyda'r gair 'Rhydd' arnynt. Dewiswch un plentyn i fod yn Haman - ef neu hi sy'n rhedeg ar ôl y plant eraill i'w tagio – a phlentyn arall i fod yn Esther. Rhowch y cardiau bach i 'Esther.' Os bydd plant yn cael eu tagio, maent yn gorfod aros yn llonydd nes bod 'Esther' yn eu cyffwrdd ac yn rhoi cerdyn 'Rhydd' iddynt. Ar ôl cyfnod penodol, arhoswch i gyfri' pwy sydd â'r nifer lleiaf o gardiau – y person/pobl yma sy'n ennill y rownd. Chwaraewch sawl rownd, gyda 'Haman' ac 'Esther' gwahanol bob tro.

Cwis

Bydd angen rhestr o gwestiynau'n seiliedig ar hanes Esther, dau ddis, gwobr fechan a phapur i gadw sgôr.



Esboniwch wrth y plant fod Iddewon heddiw'n dathlu Gŵyl y Pwrim bob blwyddyn i gofio hanes Esther. Ystyr y gair 'pwrim' yw dis. Ydyn nhw'n cofio beth oedd dymuniad Haman yn yr hanes? Cafodd ddiwrnod ei benodi i ladd yr Iddewon a oedd yn byw yn nheyrnas y Brenin Ahasfeus - a dewisodd y dyddiad drwy rolïo dis, felly dyna'r rheswm y dewiswyd yr enw 'Pwrim.'

Rhannwch y plant yn dimoedd a gofyn y cwestiynau iddynt yn eu tro. Os bydd y tîm yn cynnig ateb cywir maent yn cael taflu'r dis, a dyma yw sgôr y tîm. Cadwch sgôr pob tîm a rhowch wobwr fechan i'r tîm buddugol.

Dysgu Adnod

"Rhowch y pethau yr ydych chi'n poeni amdany'n nhw iddo fe, achos mae e'n gofalu amdanoch chi."

1 Pedr 5:7

Bydd angen Beiblau, darnau o bapur maint A4, pinnau ffelt a basged sbwriel (neu gwnaiff bag bin du y tro).

Dewch o hyd i'r adnod a'i darllen gyda'r plant. Gofynnwch iddynt gopïo'r adnod ar ddarn o bapur maint A4. Darllenwch yr adnod sawl gwaith i'w dysgu.

Wedyn, dywedwch wrth y plant i grychu'r papurau.

Safwch o flaen y plant gan ddal y fasedged sbwriel a'u gwahodd i daflu'r papurau i mewn i'r fasedged ac i adrodd yr adnod. Rhowch gymorth iddynt os bydd angen. Wedyn, rhowch y papurau'n ôl a chamu yn bellach oddi wrth y plant cyn eu gwahodd i daflu'r papurau eto, yn adrodd yr adnod yn yr un modd ag o'r blaen. Os bydd plentyn yn methu'r bin, cânt eistedd. Parhewch nes ei bod yn amhosibl i unrhyw un gyrraedd y fasedged.

Eglurwch fod Duw am inni 'daflu' ein problemau a'r pethau sy'n ein poeni ato ef. Rydym yn gwneud hyn wrth weddio. Darganfyddodd Esther a Mordecai bod Duw'n gallu edrych ar eu hól, ac mi fyddwn ninnau'n darganfod bod Duw'n gallu ein helpu ni os fyddwn yn gofyn iddo mewn gweddi.



6 - 11 oed

Esther - Llyfr Esther

DRAMA

1. Darlleniad dramatig

Bydd angen o leiaf dau gopi o 'Beibl Newydd y Plant'.

Rhannwch y plant yn ddau grŵp. Gofynnwch i un grŵp ddarllen hanes tudalen 105, 'Esther hardd', a'r ail grŵp i ddarllen tudalen 106, 'Esther yn achub pobl Dduw.'

Byddai'n dda petaech yn llungopïo'r hanesion a'u gludo ar 'sgrôl' - sribed o bapur wedi'i rholio. Esboniwch wrth y plant bod lddewon yn cofio hanes Esther bob blwyddyn ar achlysur Gŵyl Pwrim. Mae'r hanes yn cael ei ddarllen o sgrôl o'r enw 'Megila.'

Gofynnwch i'r ddau grŵp greu cyflwyniad yn seiliedig ar yr hanes sy'n cynnwys y darlleniad o'r hanes. Cofiwch roi amser i'r plant 'berfformio' eu cyflwyniadau. Efallai yr hoffech ddarparu dillad a 'props'.

2. Cyflwyno'r Cymeriadau

Mae cymeriadau lliwgar a diddorol yn hanes Esther. Beth am rannu'r plant yn grwpiau, gyda phob grŵp yn treulio amser yn astudio un cymeriad. Gofynnwch i bob grŵp i feddwl am y cymeriad, i ysgrifennu'r pwyntiau pwysicaf amdanynt ac yna gallant greu cyflwyniad ar ffurf meim neu gyfweiliad neu fonolog.

Dyma rai adnodau allweddol ar gyfer pob cymeriad:

Y Brenin Ahasferus: Esther 1:3; 10-13; 2:4; 2:17; 3:1; 3:10; 5:1-5; 6:1,2; 7:1,2; 7:1-8; 8:1,2; 8:7,8.

Esther: 2:7-9; 2:15; 2:17; pennod 4 a 5.

Mordecai: 2:5-8; 2:10; 2:21-23; 3:1-4; 4:1; 4:7,8; 4:12-14; 6:10,11; 8:1-3; 8:7-11; 8:15,16.

Haman: 3:1-9; 5:4,5; 7:1-10.

3. Canmol Duw am ei ofal

Bydd angen Beiblau ac offerynnau taro.

Darllenwch Salm 44:4-8 i'r plant, cyn eu darllen gyda'ch gilydd. Gofynnwch iddynt beth mae'r adnodau yn dysgu i ni am Dduw a'r ffordd y mae e'n amddiffyn ei bobl. Cyfeiriwch y plant at hanes Esther a'r ffordd y cafodd pobl Dduw eu hachub drwy Esther. Mae Duw'n gofalu am ei bobl heddiw hefyd. Os byddwn yn wynebu sefyllfa anodd mae Duw'n barod i'n helpu. Trafodwch gyda'r plant pa sefyllfaoedd y maen nhw'n eu hwynebu pan ddylent ofyn i Dduw am gymorth.

Gofynnwch i'r plant i feddwl am ffordd i osod yr adnodau i gerddoriaeth. Gallant greu tŵn neu ddewis tŵn adnabyddus a chanu'r adnodau - neu rai o'r adnodau - neu chwarae'r offerynnau ac adrodd yr adnodau. Efallai yr hoffech rannu grŵp mawr i ddau neu dri grŵp bach.

Anogwch y plant i 'berfformio' eu caneuon i'r lleill, ond cofiwch eu hatgoffa bod Duw'n clywed ein caneuon hefyd, ac mai'r prif reswm am 'addoli' yw canmol Duw a siarad gydag ef.



6 - 11 oed Esther - Llyfr Esther

GWEDDI

Gweddïau

Gweddïau o ddiolch

Treuliwch amser yn trafod y rhesymau sydd gennym dros ddiolch i Dduw heddiw.

Anogwch bob plentyn i adrodd gweddi o ddiolch gan ddefnyddio'r syniadau. Efallai yr hoffech eistedd mewn cylch gyda Beibl yn eich llaw. Ar ôl gweddïo, estynnwch y Beibl i'r plentyn wrth eich ymyl, mae'r plentyn hwnnw/honno'n gweddïo cyn pasio'r Beibl ymlaen. Os nad yw'r plentyn yn gyfforddus i weddïo'n uchel anogwch nhw i weddïo i'w hunain cyn pasio'r Beibl ymlaen.

Dangoswch lun o Esther i'r plant a'u gwahodd i feddwl beth oedd y peth pwysicaf a wnaeth Esther. Wedyn, dangoswch lun o Iesu iddynt a gofyn yr un cwestiwn. Mae hanes Esther yn ein hatgoffa o hanes Iesu. Roedd yn rhaid i Esther wneud rhywbeth anodd a pheryglus er mwyn achub ei phobl. Roedd yn rhaid i Iesu wneud rhywbeth anodd a pheryglus er ein mwyn ni. Treuliwch amser yn diolch i Dduw am Esther ddewr ac am Iesu, yr un a oedd yn fodlon marw ar y groes i'n hachub.

Am ofal Duw

Bydd angen bwrdd gwyn neu ddarn mawr o bapur.

Gofynnwch i'r plant feddwl am yr holl lefydd y byddwn yn ymweld â nhw yn ystod yr wythnos sydd i ddod – gwnewch restr wrth fynd ymlaen. Wedyn, gofynnwch iddynt feddwl am y bobl y byddwn yn cyfarfod â nhw, rhai a fydd yn eu cynorthwyo mewn unrhyw ffordd, a gwnewch restr arall.

Treuliwch amser yn diolch i Dduw am y bobl ar eich rhestr. Atgoffwch y plant fod Duw yn addo bod gyda'i bobl ble bynnag y maen nhw a'i fod e'n barod i'n cynorthwyo hefyd. Anogwch y plant i fod yn dawel a meddwl am hyn. Treuliwch amser yn gweddïo dros eich gilydd, fel y byddwch yn profi cymorth Duw yn ystod yr wythnos sydd i ddod. Eto, efallai yr hoffech eistedd mewn cylch, gyda phob plentyn yn gweddïo yn ei d/thro.

AMSERLEN


Wythnos 1: Cyflwyno'r Thema 1 neu 2; Cyflwyno'r Hanes 1; Crefft/Drama;

Wythnos 2: Cyflwyno'r Thema 3; Cyflwyno'r Hanes 2; Crefft/Drama;

Wythnos 3: Cyflwyno'r Thema 4; Crefft/Drama; Cwis.



Taflen 4 Esther - Llyfr Esther



Fedrwch chi ddod o hyd i'r geiriau o hanes Esther yn y chwilair?

W R I A C E D R O M
S Y P S T Y U O P S
U T I D D E W H L E
R B N M L A S R S N
E O L P O D N T R I
F A S T I D H S T H
S D G D F E B O M N
A C R T R L E C U E
H E C M P W R I M R
A D F G H G U P O B

Ahasferus

Fasti

Mordecai

Gwledd

Esther

Iddew


Brenhines

Pwrim

Dioddef am fod yn Gristion - yn 2011



Taflen 5 Esther - Llyfr Esther



Roedd Haman yn casau'r Iddewon gymaint fel ei fod am gael gwared â phob un ohonynt!

Enw am gasau a chamdrin pobl sy'n perthyn i grefydd arall yw 'erledigaeth.'

Drwy hanes mae Iddewon wedi wynebu erledigaeth.

Hyd yn oed heddiw mae Cristnogion yn wynebu erledigaeth oherwydd eu ffydd yn Iesu Grist.

Mae'r map yn dangos 50 o wledydd lle mae hyn yn digwydd.

Open Doors yw enw un mudiad sy'n ceisio cynorthwyo Cristnogion sy'n cael eu herlid. Mae'r map yma wedi ei gynllunio gan Cyngrhair Efengylaidd y Byd.


- Mewn rhai llefydd yn yr Affric mae Cristnogion yn cael eu gwahardd rhag derbyn triniaeth meddygol mewn meddygfa Fwslemaidd
- Mae'n erbyn y Gyfraith i ddod yn Gristion mewn rhai ardaloedd yn yr India
- Mae eglwysi ac ysgolion Cristnogol wedi cael eu rhoi ar dân mewn rhai rhannau o'r Ddwyrain pell
- Mae'n erbyn y Gyfraith i gyhoeddi unrhyw lenyddiaeth Gristnogol mewn rhai gwledydd yn y Dwyrain Canol
- Yng Ngogledd Corea mae Cristnogion yn cael eu carcharu er mwyn ceisio eu gorfodi i roi y gorau i'w ffydd yn Iesu



Cewch hyd i fwy o wybodaeth ar www.opendoorsuk.org



Taflen 6 Esther - Llyfr Esther



A fedrwyd chi ddatrys y cliwiau ar gyfer y croesair?



Ar draws

2. BRENIN PERSIA
4. YR IDDEWES HARDD
5. GWYL I DDATHLU DEWRDER ESTHER
6. ESTYNODD AHASFERUS HON
7. Y DYN A OEDD YN CASAU'R IDDEWON

I lawr

1. CEFNDER ESTHER
2. MIS TYNGEDFENNOL

Gwaredwr!




'A gelwi ef lesu, am mai ef a wareda ei bobl
oddi wrth eu pechodau.' Mathew 1:21



Taflen 7 Esther - Llyfr Esther

Dyma'r prif gymeriadau o hanes Esther. Pwy ydynt?
Beth wyt ti'n cofio amdany'n nhw?
Lliwia'r lluniau ac ysgrifenna bwt am bob un.
Neu, copia'r lluniau i greu poster neu llyfr am yr hanes.





11 - 14 oed Esther - Llyfr Esther

Cyflwyniad

Mae hanes Esther wedi'i lleoli ym Mhersia, ychydig wedi i Bersia oresgyn Babilon fel y grym pennaf yn y Dwyrain Agos. Mae llyfr Esther yn olrhain hanes yr Iddewon a oedd wedi eu caethgludo i Fabilon ac wedi dewis peidio dychwelyd i Jwda, er y rhyddid a gawsant gan awdurdodau Persia. Mae'r Brenin Ahasferus yn cael ei adnabod yn well fel y Brenin Xerxes, felly mae'n debyg bod dyddiad y digwyddiadau rhwng 486 - 465 C.C.

Drwy gyfres o ddigwyddiadau daeth Esther yn wraig i'r Brenin. Yn y cyfamser, roedd Haman yn ceisio hil-laddiad yr Iddewon, a hynny oherwydd ei fod yn casáu Mordecai, cefnder Esther. Mae'n sicrhau cytundeb y brenin drwy ei berswadio fod yr Iddewon yn her i sefydlogrwydd ei deyrnas. Ond, drwy amryw droeon, mae'r dinistr yn cael ei osgoi, achubir y genedl, ac yn wir mae'r cyfan yn troi yn erbyn Haman a'i gyd-gynllwynwyr.

Nodwedd ddiddorol yw absenoldeb enw Duw o dudalennau'r llyfr, ond er na cheir ei enw, eto mae ei ddylanwad i'w weld yn ganolog i'r hanes i gyd. Nid cyd-ddigwyddiad a barodd i'r Frenhines Ffasti gael ei gwrthod gan y brenin, a bod Iddewes, sef Esther, yn cymryd ei lle; bod Mordecai wedi gwneud cymwynas â'r brenin cyn i gynllwyn Haman ddeor; bod y brenin wedi cofio hynny ar yr union adeg sy'n sicrhau cwymp Haman ac achubiaeth yr Iddewon.

Un o'r adnodau mwyaf cyfarwydd yn y llyfr yw - "*Os byddi'n gwrthod siarad yn awr, daw ymwarded a chymorth i'r Iddewon o le arall, ond byddi di a thŷ dy dad yn trengi. Pwy a ŵyr nad ar gyfer y fath amser â hwn y daethost i'r frenhiniaeth?*" 4:14. Roedd Esther mewn safle arbennig i ddadlau achos ei phobl, ond i wneud hynny, roedd yn rhaid iddi beryglu ei bywyd. Dadl Mordecai yw mai dyma, o bosibl, pam y daeth hi'n frenhines. Mae dewrder a ffydd Esther yn allweddol i ganlyniad yr hanes, ac i'r fuddugoliaeth sy'n deillio o'r dewrder hynny. Yn hyn, cawn gysgod rhyfeddol o waith achubol lesu, un a oedd yn barod i ddadlau ein hachos, yn barod, nid yn unig i beryglu ei fywyd, ond i roi ei fywyd dros bechaduriaid. Mae'n sefyll rhwng y Brenin tragwyddol a phechaduriaid, gan roi ei fywyd i sicrhau ein buddugoliaeth ni.

Wythnos 1: Esther 1-4

Mae pedair pennod gyntaf y llyfr yn ein cyflwyno i brif gymeriadau'r hanes, sef y Brenin Ahasferus, ei brif weinidog - Haman, Esther - Iddewes hardd, a Mordecai - ei hewythr, un o swyddogion y brenin. Mae sylfeini'r hanes yn cael eu gosod, gyda'r diweddglo anhygoel yn dod yn yr adran nesaf, sef penodau 5-10.

Cyflwyno'r Thema

1. Hanesion achub

Bydd angen pentwr o bapurau newydd, a darn mawr o bapur i gofnodi darganfyddiadau'r grŵp.

Dosbarthwch y papurau newydd i'r bobl ifanc a'u gwahodd i chwilio am hanesion sy'n cynnwys

rhywun/rhywbeth yn cael ei 'achub'. Wrth iddynt ddod o hyd i hanes, gofynnwch iddynt weiddi enw'r achubwr ac enw'r person sydd wedi ei a/hachub. Gwnewch ddwy golofn ar y papur er mwyn cofnodi'r enwau yn y ddau gategori. Ar ôl casglu ychydig o esiamplau, treuliwch amser yn trafod hanesion eraill y mae'r grŵp wedi'u clywed neu o'u profiadau personol. Ychwanegwch y rhain i'r colofnau.

Trafodwch faint o'r hanesion sy'n cynnwys elfen lle'r oedd pobl yn y lle iawn ar yr amser iawn. Esboniwch ein bod am glywed hanes dynes ddewr o'r Hen Destament o'r enw Esther. Defnyddiodd Duw Esther i achub ei phobl mewn ffordd rhyfeddol iawn.



11 - 14 oed Esther - Llyfr Esther

2. Beth yw harddwch go iawn?

Bydd angen copi o Atodiad 5, darnau o bapur ac offer ysgrifennu.

Rhowch ddarn bach o bapur a phensil i bawb a gofyn iddynt ysgrifennu rhestr o'r 5 person mwyaf hardd yn eu tyb hwy.

Ar ôl cymharu'r rhestrau a holi'r bobl ifanc am eu rhesymau am ddewis y bobl yma, gofynnwch iddynt edrych ar y darn cyntaf o Atodiad 5: 'Beth yw harddwch', ac i rifo'r nodweddion, rhwng 1 - 10 - gyda rhif 1 yn cael ei roi i'r nodwedd bwysicaf yn ei golwg hwy.

Eglurwch ein bod am glywed am ddynes hardd iawn o'r Hen Destament a gafodd ei dewis i fod yn frenhines a chael ei defnyddio gan Dduw i achub ei phobl o sefyllfa beryglus iawn.

Darllen a deall y Beibl: Esther 1-4

Bydd angen Beiblau, Beibl Lliw y Plant, Taflen 7, darnau o bapur, offer ysgrifennu.

❖ Adroddwch hanner cyntaf hanes Esther o Beibl Lliw y Plant (tud. 168, 169), neu yn eich geiriau eich hun gan ddefnyddio'r cymeriadau cartŵn o daflen 7 ;

❖ Darllenwch Esther, pennod 4 gyda'r bobl ifanc;

❖ Gofynnwch i'r grŵp a ydynt wedi sylweddoli bod yna gymeriad pwysig nad yw wedi enwi yn yr hanes hyd yn hyn - Duw;

❖ Ydy'r grŵp yn medru meddwl ar ba adegau yn yr hanes y byddai Esther a Mordecai yn debygol o fod wedi amau presenoldeb Duw;

❖ Darllenwch adnod 14b gyda'r grŵp. Beth y mae'r adnod hon yn ei golygu?

❖ Yn yr adnod, mae Mordecai'n awgrymu bod Duw wedi gosod Esther yn y palas i bwrpas arbennig;

❖ Ydy'r grŵp yn gallu adnabod darnau yn yr hanes pan oedd Duw yn amlwg ar waith (Esther yn cael ei dewis gan y brenin gan mai hi oedd yr harddaf o'r merched; Mordecai, ei hewythr, yn clywed am y cynllwyn i ladd y brenin);

❖ Eglurwch y byddwn yn darganfod y tro nesaf beth benderfynodd Esther i'w wneud a beth ddigwyddodd i'r Iddewon.

Cymhwyso

Rhowch ddarn o bapur a phensil i bawb a'u gwahodd i dynnu llun syml ohonynt eu hunain yn y canol.

Esboniwch eich bod am greu darlun sy'n dangos gwe 'dylanwad', h.y. darlun sy'n dangos pobl y maent mewn cysylltiad â nhw.

Gofynnwch iddynt dynnu llinellau byr o'r llun canolog ac i ysgrifennu enwau, neu dynnu lluniau o'r bobl sydd agosaf atynt - un person ar ddiwedd un llinell - teulu agos a ffrindiau gorau. Dyma haen gyntaf y we.

Wedyn, gofynnwch iddynt feddwl am bobl eraill y maent yn eu hadnabod, ond ddim mor dda, e.e. athrawon, cymdogion, pobl ar y bws ysgol/ yn yr un dosbarth.

Ar ôl gorffen, treuliwch amser yn edrych ar y we gan ystyried pa mor bell mae eu dylanwad yn medru cyrraedd.

Roedd Esther mewn sefyllfa i ddylanwadu ar ddyfodol yr holl Iddewon a oedd yn byw yn yr ymerodraeth Bersaidd gyfan!

Trafodwch pwy mae'r bobl ifanc yn meddwl y mae Duw yn awyddus i ni ddylanwadu arnynt?



11 - 14 oed Esther - Llyfr Esther

Sut ydyn ni'n dylanwadu ar eraill? Ydy ein dylanwad ni yn un sy'n plesio Duw bob amser?

Amser Gweddio

Defnyddiwch y darluniau i sbarduno eich gweddïau. Anogwch y bobl ifanc i ystyried sut mae Duw am iddynt ddylanwadu ar eraill, ac i gofnodi eu syniadau rhywle ar y darlun. Efallai y byddai o gymorth i roi syniadau i'r bobl ifanc i ddechrau:

- ❖ Cynnig darllen y Beibl bob nos gyda brawd neu chwaer b/fach;
- ❖ Gwahodd rhywun newydd i Ysgol Sul neu'r Clwb Ieuenctid;
- ❖ Ceisio bod o gymorth i'ch rhieni;
- ❖ Bod yn ddewr gyda ffrindiau sy'n rhegi/ yn dwyn/yn herio plant eraill, gan ddweud beth sydd o'i le gyda'r ymddygiad neu ddewis peidio â gwneud yr un peth â nhw.

Gweithgarwch ychwanegol

Gêm ymddiried

Bydd angen mygydau (sgarff wlanog), bwydydd anniben (ffa pob, pwdin reis), platiau, llwyau, offer glanhau/hen dywelion, gwobr fechan.

Rhannwch y bobl ifanc yn barau, gyda phob pâr yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn eu tro.

Nod y gêm yw bod un partner yn bwydo'r llall, gyda'r pâr sy'n bwyta'r mwyaf o fwyd o fewn munud, yn ennill.

Mae'n rhaid i un partner eistedd wrth y bwrdd yn gwisgo mwgwd gyda'i ddwylo y tu ôl i'w gefn. Gosodwch blât o fwyd a llwy ar y bwrdd o'i flaen. Mae'r partner arall yn eistedd tu ôl i'w bartner gyda'i ddwylo rhwng breichiau'r llall, yn codi'r llwy, ac yn ceisio bwydo'i bartner gyda chyn lleied o lanast ag sy'n bosibl. Efallai yr hoffech osod drych o'u blaen fel cymorth.

Cadwch fowlen pob pâr ar wahân, a'u cymharu ar ôl i bob pâr gael tro, er mwyn darganfod yr enillwyr!

Sut deimlad oedd methu gweld yn iawn beth oedd yn digwydd? Oedden nhw'n ymddiried yn sgiliau bwydo eu partneriaid?

Atgoffwch y bobl ifanc ei bod hi'n gallu bod yn anodd i ni ddeall beth yw cynllun Duw ar ein cyfer - yn enwedig pan fo pethau anodd yn digwydd. Fyddwn ni'n ymddiried yn Nuw ar yr adegau anodd hynny? Sut ydyn ni'n medru derbyn cymorth Duw os ydy hi'n anodd ymddiried? Cyfeiriwch hwy at Salm 18:3 a 1 Pedr 5:7.

Wythnos 2: Esther 5-10

Mae diwedd glo'r hanes yn dod yn sydyn, gyda sawl 'cyd-ddigwyddiad' a 'thro' yn brawf fod Duw yn rheoli'r sefyllfa. Mae Esther a Mordecai'n cael eu hanrhydeddu am eu ffyddlondeb, mae'r drwgweithredwr, Haman, yn colli ei fywyd ac mae pobl Dduw yn cael eu hachub.

Cyflwyno'r Thema

Bydd angen darnau bach o bapur ac offer ysgrifennu, a'r ail ran o Atodiad 5 - 'Pe bawn i

Naill ai,

Rhannwch y bobl ifanc yn barau gyda phapur a phensil a gofynnwch iddynt restru cymaint o ffilmiau â phosib sy'n cynnwys sefyllfa pam fo rhywun yn mentro ei b/fwyd er mwyn achub rhywun arall. Ar ôl dwy funud, gwahoddwch bob pâr i gyfri sawl ffilm y maent wedi'u henwi, cyn gwahodd y pâr gyda'r rhestr hiraf i ddarllen eu rhestr. Wedyn, gofynnwch a oes ffilmiau eraill wedi'u henwi gan y parau eraill. Gwahoddwch bob pâr i gyflwyno hanes a chymeriadau un o'r ffilmiau y maent wedi'i enwi.

Ydy'r grŵp yn ystyried y bydden nhw'n barod i fentro eu bywydau dros rywun arall er mwyn achub bywyd rhywun arall? Sut mae'r grŵp yn



11 - 14 oed Esther - Llyfr Esther

teimlo am aelodau o'r gwasanaethau brys, sydd yn aml yn mentro eu bywydau dros eraill?

Neu,
Gofynnwch i'r bobl ifanc i ateb y cwestiynau ar Atodiad 5 'Pe bawn i...'

Yn ein sesiwn heddiw, byddwn yn gweld sut y bu i Esther fentro ei bywyd dros ei phobl.

Darllen a deall y Beib: Esther 5-10

Bydd angen y lluniau o daflen 7, wedi'u chwyddo os yn bosibl, Beibl Lliw y Plant, Beiblau.

❖ Defnyddiwch y lluniau i adolygu'r hanes blaenorol, gan atgoffa'r bobl ifanc o'r sefyllfa yr oedd yr Iddewon, Mordecai ac Esther ynddi;

❖ Darllenwch yr hanes o Beibl Lliw y Plant (tud. 170,171);

❖ Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r grŵp, gan ysgrifennu eu hatebion o amgylch y lluniau cartŵn: Pa fath o deimladau oedd gan Esther cyn ac ar ôl mentro i bresenoldeb y brenin? Sut ddangosodd Esther ei bod yn ymddiried yn Nuw? Beth am rôl Mordecai - cofiwch sut y bu iddo adrodd am y cynllwyn i ladd y brenin, am ei fod wedi mynnu nad oedd Esther i ddatgelu ei fod yn Iddewes? Darllenwch bennod 10 i ddarganfod beth ddigwyddodd i Mordecai. Pa eiriau sy'n addas i ddisgrifio Haman? Pa fath o berson oedd y brenin Ahasferus?

❖ Darllenwch benodau 9:18-24 i ddarganfod sut y bu i'r Iddewon ddathlu eu hachubiaeth.

Cymhwyso

Bydd angen Beiblau.

Eglurwch wrth y grŵp bod yr Iddewon yn cofio hanes Esther bob blwyddyn ledled y byd hyd heddiw, oherwydd bod yr hanes am Esther yn

achub pobl Dduw mor bwysig iddynt. Enw'r ŵyl yw Pwrim.

Mae'r hanes yn bwysig i Gristnogion hefyd, a'r prif reswm am hynny yw ei bod yn ddarlun o waith Iesu Grist fel Gwardwr ei bobl. Mae llawer o hanesion yr Hen Destament yn gwneud hyn, e.e. Noa yn adeiladu cwch i achub y bobl o'r dilyw, Moses yn arwain pobl Dduw drwy'r Môr Coch i'w hachub o Pharo a'r Eifftiaid.

Cyfeiriwch yn ôl at yr hanesion achub o ddechrau'r wers. Ym mhob sefyllfa, roedd angen achub rhywun neu rywrai o berygl.

Yn hanes Esther, roedd angen achub pobl Dduw o hil-laddiad dan law Haman. Er mwyn gwneud hyn roedd yn rhaid i Esther fentro ei bywyd, a mynd o flaen y brenin heb wahoddiad ac roedd posibilrwydd y byddai'n cael ei lladd am wneud hynny. Roedd Esther yn fodlon mentro am ei bod hi'n caru Mordecai a'i phobl.

Yn hanes Iesu Grist, daeth i'r byd i farw ar y groes er mwyn achub pwy bynnag sy'n credu ynddo o bechod a marwolaeth.

Gofynnwch i'r bobl ifanc ddarllen Mathew 1:21. Roedd Iesu'n gwybod y byddai'n rhaid iddo farw ar y groes er mwyn sicrhau maddeuant i ninnau, gan gymryd cosb ein pechod a bodloni cyfiawnder Duw. Ond, roedd yn fodlon mynd i'r groes am ei fod yn ein caru gymaint.

Treuliwch amser yn gweddïo gyda'ch gilydd, gan ddiolch i Iesu am fod yn fodlon marw er mwyn ein hachub ac am hanes Esther sy'n ein hatgoffa o'r ffaith ryfeddol yma.

Gweithgarwch ychwanegol

Bisgedi Haman



11 - 14 oed Esther - Llyfr Esther

Cynhwysion

3 wy, 200g siwgr mân, 175ml olew llysiâu, 2 ½ llwy de o fanila 'extract,' 110ml sudd oren, 675g blawd plaen, 1 llwy fwrdd soda pobi, 300g o jam.

Dull

Cynheswch y popty i 180C/ Nwy 4. Irwch duniau pobi.

Cymysgwch yr wyau a'r siwgr mewn powlen fawr nes ei fod yn ysgafn. Ychwanegwch yr olew, fanila a'r sudd oren.

Cymysgwch y blawd a'r soda pobi cyn ychwanegu'r gymysgedd wy a'i droi nes yn does cryf. Pan fydd y toes wedi oeri, rhaid ei rolïo ar wyneb a rhoi blawd arno hyd nes ei fod yn 0.5 cm o drwch. Torrwch i gylchoedd gan ddefnyddio torrwr neu wydr a'i roi ar y tuniau pobi.

Rhowch tua un llwy de o jam yng nghanol pob cylch a phigo'r ochrau i greu tair cornel.

Pobwch am 12-15 munud nes yn frown euraidd. Yna, rhaid ei osod ar rac weiren i oeri.

Wythnos 3:

'Os erlidiasant fi, fe'ch erlidiant chwithau....'
Ioan 15

Yn y sesiwn hon byddwn yn treulio amser yn ystyried sefyllfaoedd Cristnogion trwy'r byd sy'n wynebu erledigaeth, yn gweddiïo drostynt ac yn ceisio codi ymwybyddiaeth o gamau ymarferol i'w gynorthwyo.

Cyflwyno'r Thema

1. Byddwch yn ddewr!

Bydd angen copi o Atodiad 6, wedi'i dorri'n barod - dyma'r cardiau 'dewrder'!

Rhannwch y bobl ifanc yn grwpiau bach. Esboniwch eich bod am iddynt feddwl am fod yn ddewr a'ch bod am ddangos sawl sefyllfa iddynt, un ar y tro. Mae'n rhaid iddynt benderfynu fel tîm a ydynt yn ddigon 'dewr' i wynebu'r sefyllfa sydd o dan sylw. Os yw'r tîm yn anghytuno, bydd

rhaid iddynt fynd gyda'r mwyafrif. Maen nhw'n dangos eu penderfyniad trwy godi bawd neu roi bawd i lawr.

Does dim rhaid dangos pob sefyllfa ond mae angen gorffen gyda'r sefyllfa '*Dweud wrth y dosbarth dy fod yn Gristion.*'

Trafodwch beth fyddai ymateb pobl y dosbarth i'r fath ddatganiad.

Eglurwch fod rhai pobl yn cael amser caled gan eu ffrindiau am eu bod yn Gristnogion, efallai'n cael eu herio neu'n cael eu gadael allan. Mae hyn yn boenus iawn.

Mewn rhai gwledydd o'r byd mae pethau llawer gwaeth yn digwydd i Gristnogion, dyma yw ein thema heddiw. Os yw pobl yn cael eu cam-drin oherwydd eu ffydd rydym yn defnyddio'r geiriau 'erledigaeth' neu 'poenydio.'

Darllen a deall y Beibl: Esther 3:1-8

Darllenwch yr adnodau gyda'ch gilydd;

Trafodwch adnod 6 – pam fod Haman eisïau cael gwared â'r Iddewon i gyd?

Roedd Haman yn perthyn i genedl wahanol i'r Iddewon. Roedd yr Iddewon wedi cael eu cludo o Israel i Babilon gan y Brenin Nebuchadnesar ar ôl iddo oresgyn a meddianu'r wlad. Cafodd yr Iddewon mwyaf talentog a chlyfar swyddi yn llysoedd y brenin, ond yn amlwg nid oedd pawb wedi eu croesawu. Roedd casineb Haman gymaint fel ei fod am ladd pob Iddew drwy'r ymerodraeth - enw am y math hwn y o weithred yw 'hil-laddiad'.

Trwy gydol hanes mae Iddewon wedi wynebu erledigaeth: efallai bydd y bobl ifanc wedi astudio rhywfaint o hanes yr Holocaust yn yr ysgol.

Defnyddiwch Atodiad 7 i ddarganfod mwy am yr erledigaeth y mae Cristnogion yn ei wynebu heddiw.



11 - 14 oed Esther - Llyfr Esther

Mae gan y mudiad 'Open Doors' dudalennau ar y we ar gyfer bobl ifanc yn arbennig, cewch hyd iddynt ar opendoorsuk.org

Cewch hyd i ffilmiau byr ar safle 'barnabas fund' sy'n disgrifio'r gwaith y mae'r mudiad yma'n ei gyflawni gyda Christnogion sy'n cael eu herlid - barnabasfund.org

Gweddïau

Defnyddiwch y map o Daflen 5. Gofynnwch i bawb gymryd tro i ddewis gwlad sy'n cael ei henwi ac i weddïo dros Gristnogion y wlad honno a thros y mudiadau sy'n ceisio eu cynorthwyo. Trafodwch yn gyntaf rhai o'r pethau sydd eu hangen ar y ddau.

Gweddïwch dros y bobl o Atodiad 7. Anogwch y bobl ifanc i weddïo bob dydd dros y bobl a'r gwledydd.



Gweithgarwch ychwanegol

Mae'r mudiad '*Cristnogion yn erbyn poenydio*' yn casglu gwybodaeth am bobl sydd wedi eu carcharu oherwydd eu ffydd. Mae ganddynt restr a chyfeiriadau rhai carcharorion ac maen nhw'n annog pobl i ysgrifennu cardiau cyfarch i'r carcharorion. Mae hyn yn rhoi hwb anferthol i'r carcharorion a'u teuluoedd ac yn dangos i lywodraeth y wlad bod pobl yn gwybod am y driniaeth annheg ac anghyfiawn y mae'r Cristnogion yn ei dioddef.

www.torturecymruwales.org.uk







Atodiad 1 Esther - Llyfr Esther







Atodiad 2 Esther - Llyfr Esther





Atodiad 3 a 4 Esther - Llyfr Esther





Beth yw harddwch?

Beth sy'n gwneud rhywun yn hardd? Rhiffr nodweddiadol o 1 i 10.

- clyfar doniol hyderus
croen clir heini caru Duw
cwrtais caredig agwedd bositif
 gwallt del

Pe bawn i.....

1. Yn Brif Weinidog am ddiwrnod

- Yn ei gwneud hi'n haws i basio arholiadau
 - Mlynd am de gyda'r Frenhines
 - Ceisio cael gwared â thlodi yn y byd

2. Yn seren bop am ddiwrnod

- Cael parti enfawr ar gyfer llond gwald o sêr eraill
 - Prynu dillad drud a'r 'gadgets' diweddaraf
- Defnyddio fy enwogrwydd i helpu elusen arbennig

3. Yn DJ Radio 1 am ddiwrnod

- Chwarae fy hoff gameuon drwy'r dydd (a'r nos)
- Gwahodd fy hoff fand i gynnal gig i fy ffrindiau
- Rhoi cyngor am fwlio a threfu llinell gymorth i rai sy'n dioddef.



Cardiau Dewrder

Codi pry copyn	Bwyta llond plât o sbrowts	Ymweld â hen, hen fodryb	Hedfan i Irac
Rhoi sws i falwoden	Bod yn ffrindiau â'r 'geek' mwyaf yn yr ysgol	Gafael mewn neidr	Cyffesu dy fod yn hoff o Wil Young
Amddiffyn rhywun sy'n cael ei b/fwlio	Achub dy fochdew o'r toiled	Cymryd rhan mewn gwasaneth ysgol	Dweud wrth dy ffrindiau dy fod yn Gristion
Helpu rhywun sydd wedi cael damwain ar ochr y stryd	Dweud wrth athro dy fod wedi gweld disgybl arall yn dwyn	Darllen dy Feibl yn ystod yr egwyl	Dweud wrth ffrind bod angen iddo sychu beth bynnag sy'n hongian o'i drwyn



Beth yw erledigaeth?

Ydych chi'n gwybod beth yw ystyr y gair hwn?
Cewch hyd iddo yn y Beibl, mewn llyfrau, ar y newyddion... efallai bod gennym ryw syniad ei fod yn golygu bod pobl yn cael eu cam-drin - ond beth yn union yw ei ystyr?

Pwy sy'n cael eu herlid heddiw? Pa fath o erledigaeth sy'n cymryd lle? Pwy sy'n gyfrifol am y cam-drin? Ymhle mae'n digwydd?



Dwy wraig o Jos, Nigeria, yn alaru ar ôl i 20 Gristion cael eu lladd gan ymosodwyr Moslem.

SUT

Mae Cristnogion yn cael eu cam-drin mewn llawer ffordd ond dyma'r 7 ffurf mwyaf cyffredin a pheryglus:

Trais - ymosodiadau corfforol ac ar eiddo. Capeli a chartrefi'n cael eu dinistrio. Ymosod ar, cipio, a lladd pobl.

Diffyg addysg - rhieni'n rhy dlawd i dalu am addysg i'w plant. Plant yn gorfod mynd i ysgolion Moslemaidd yn wynebu erledigaeth. Addysg uwch yn cael ei wadu i Gristnogion.

Swyddi tlawd - Cristnogion ddim yn cael cynnig swyddi da.

Anghenion sylfaenol yn cael eu hatal - yn enwedig mewn sefyllfaoedd o argyfwng.

Diffyg adnoddau - ddim yn cael llogi adeilad i addoli, perchen Beibl, dosbarthu llenyddiaeth Gristnogol.

Ymosodiadau ar arweinwyr - eglwysi rhy dlawd i gynnal arweinydd. Arweinwyr yn wynebu trais neu garchar.

Rhai sydd wedi newid 'crefydd' - rhai sy'n 'troi' at Gristnogaeth o 'ffydd' arall yn wynebu gwrthwynebiad creulon a ffyrnig ac yn aml, marwolaeth.



Fedwch chi gredu bod Gristnogion yn Eritrea yn cael eu arestio a'u dal mewn bocsys metal, mawr fel rhain?

BLE?

Gall erledigaeth ddigwydd yn unrhyw gyd-destun ond mae'n fwy tebygol mewn gwledydd Moslemaidd a gwledydd seciwlar. Gwledydd Moslemaidd: mae dysgeidiaeth Moslem yn dysgu fod Cristnogion yn ail-radd. Mae Cristnogion yn wynebu anffafiaeth ar raddau amrywiol, sy'n dibynnu ar ba mor llym yw'r llywodraeth.

Cyd-destun seciwlar: mae llywodraethau'n sy'n ystyried 'crefydd' yn fygythiad i'w llywodraeth yn rheoli crefydd yn dynn, neu'n ei wahardd yn gyfan gwbl.

Cyd-destun gorllewinol: nid yw Gristnogion yn y Gorllewin yn dioddef i'r un graddau ond mae pwysau'n tyfu o gyfeiriad Islam radicalaidd a seciwlariaeth ymosodol i leihau dylanwad Cristnogaeth.

Eraill: mewn rhai gwledydd Hindŵaidd a Bwdaidd; gwledydd a llywodraeth lygredig.

PWY?

Dydy erledigaeth ddim yn codi o un ffynhonnell - mae'n codi o'r ddrwgdybiaeth a'r elyniaeth sy'n bodoli yn y gymdeithas.

Teulu: mae aelodau o'r teulu yn medru bygwth, diarddel neu gam-drin yn emosiynol. **Cymuned:** os mae Cristnogion yn cael eu hystyried yn israddol neu'n ddylanwad drwg gan gymdeithas mae hyn yn arwain at fygythiadau, trais, gwrthwynebiad, eu trin yn annheg ym myd gwaith, yn cael eu cyhuddo o droseddau ar gam.



Mae'r merched yn y llun yn cael eu hyfforddi i fod yn nyrsws gan mudiad Cristnogol yn yr India. Mae pob un ohonynt wedi gorfod gadael adref am eu bod yn wynebu erledigaeth am fod yn Cristnogion.

Mae'r map ar daflen 5 yn dangos ym mha wledydd mae Cristnogion yn cael eu herlid heddiw. Mae sawl mudiad yn bodoli i geisio cynorthwyo'r Cristnogion sy'n dioddef e.e. barnabasfund, Open Doors, Cristnogion yn erbyn poenydio Cewch hyd i fwy o wybodaeth ar eu safleoedd gwe.

Mae'r dudalen hon wedi cael ei chreu (gyda chaniatâd) yn defnyddio gwybodaeth o'r cylchgrawn barnabasaid Medi/Hydref 2010. Cewch lawrlwytho'r cylchgrawn o safle we barnabasfund.org



Gwasanaeth Teuluol Esther - Llyfr Esther

Gwasanaeth Teuluol Esther

Defosiwn

Gair o groeso, gweddi, emyn/ cân

Cyflwyniad 1: Sgets

Gellir defnyddio'r sgets syml yma i gyflwyno'r thema fod Esther yn wahanol i'r bobl yn y wlad lle'r oedd hi'n byw.

*Daw **Plentyn 1**, sy'n gall ac o ddifri', ymlaen cyn i **Blentyn 2** ei ddilyn (un o'r bechgyn, os yn bosib') â golwg freuddwydiol arno, ac yn edrych arno'i hun mewn drych bob munud.*

Plentyn 1: Ti'n edrych yn ... wahanol heddiw.

Plentyn 2: Be? (*yn dal i ymddwyn yn freuddwydiol*)

Plentyn 1: Bobol bach! Be sy'n bod arnat ti? Mi wyt ti fel breuddwyd!

Plentyn 2: Pwy fi?

Plentyn 1: Ia, ti! Rydw i wedi bod yn trio siarad efo ti ers amser, a'r unig beth fedri ddweud ydi "Be'?" neu "Mmm"! Wyt ti'n sâl?

Plentyn 2: Nac ydw.

Plentyn 1: Ond mae yna rhywbeth yn bod hefo ti!

Plentyn 2: Nag oes. (*Edrych yn y drych eto, a chwarae gyda'i wallt neu wneud yn siŵr fod ei ddannedd yn lân.*)

Plentyn 1: O-o-o! Aros di funud! Rydw i'n gwybod beth sy'n bod arnat ti!

Plentyn 2: Does yna ddim byd yn bod arna i.

Plentyn 1: O, oes! Ac rwyf ti'n coch i rŵan! Dyna profi'r peth!

Plentyn 2: Profi beth?

Plentyn 1: Ymddwyn yn freuddwydiol ac edrych arnat ti dy hun yn y drych drwy'r amser! Rwyf ti mewn cariad!

Plentyn 2: Sut wyt ti'n gwybod?

Plentyn 1: Roeddwn i'n iawn!

Plentyn 2: Plis, paid â dweud wrth neb!

Plentyn 1: Oce – ond dim ond os wnei di ddweud wrtha i pwy ydi hi.

Plentyn 2: Addo?

Plentyn 1: Addo!

Plentyn 2: W-e-e-l, dwyt ti ddim yn ei nabod hi. Mae hi'n ofnadwy o ddel. (*yn troi yn freuddwydiol eto*)
Mae ganddi wallt hir melyn cyrliog a llygaid glas, glas.

Plentyn 1: O, ia.

Plentyn 2: Ond mae yna broblem.

Plentyn 1: Tydi hi ddim yn dy licio di?

Plentyn 2: Na, nid hynny. Mae hi'n ... mae hi'n ... mae hi'n cefnogi ... Lerpwl!

Plentyn 1: Cefnogi Lerpwl? Ond sut mae hynny'n broblem?

Plentyn 2: Rydw i'n cefnogi Everton! Mae hi'n wahanol!!

Plentyn 1: Paid â bod yn hurt!

Plentyn 2: Dydw i ddim yn bod yn hurt. Mae hi'n cefnogi tîm gwahanol!

Plentyn 1: Dydi o ddim yn ddiweddi y byd, siŵr iawn! Beth am i chi eich dau benderfynu mynd i gefnogi tîm Cymru hefo'ch gilydd?

Plentyn 2: Wyt ti'n meddwl y byddai hynny'n gweithio?

Plentyn 1: Mae o'n werth rhoi cynnig arni os wyt ti wedi gwirioni gymaint â hynna arni!

Plentyn 2: Iawn. Diolch.

Plentyn 1: Grêt. Ti'n hapus rŵan. Tyrd wir, a rho'r gorau i edrych yn y drych yna, neu mi fydd wedi torri!
(*Plentyn 1 + 2 yn cerdded i ffwrdd*)



Gwasanaeth Teuluol Esther - Llyfr Esther

Arweinydd: Eglurwch eich bod wedi bod yn edrych ar hanes yn y Beibl am ferch hardd iawn, iawn, a bod y ferch yma yn wahanol hefyd, ond nid am ei bod yn cefnogi tîm pêl-droed gwahanol chwaith!

Cân

“Mi gamaf ‘mlaen” (Tyrd i Ddathlu, rhif 15)

Cyflwyniad 2: ‘Beth sy’n digwydd?’

PowerPoint “Beth sy’n digwydd?”

Dangoswch y gyfres o luniau pobl yn cael eu hachub gan wahanol wasanaethau achub, gan ofyn beth sy’n digwydd yn y lluniau a pha wasanaeth sydd yn helpu. (Powerpoint: Ffeil “Beth sy’n digwydd ACHUB”)

Eglurwch fod yna achub yn digwydd yn ein stori o’r Beibl hefyd, achub rhag perygl mawr iawn.

Cyflwyno’r hanes:

Gall yr arweinydd egluro eich bod wedi bod yn dysgu am hanes Esther dros yr wythnosau diwethaf. Roedd teulu Esther yn byw ym Mhersia. “Seren” yw ystyr enw Esther, a dros yr wythnosau diwethaf rydych wedi dysgu fod Esther yn seren go ddisglair.

Defnyddiwch yr hanes “Roedd Esther yn seren” o “**Beibl Newydd y Storiwr**” gyda’r gynulleidfa yn ymuno drwy ymateb i enwau ‘Esther’, ‘Y Brenin Ahasferus’ a ‘Haman’ (*gweler adran “Rhannu Stori” yng nghefn y llyfr*). Os bydd y plant wedi gwneud offerynnau taro, neu os oes gennych rai iddynt eu defnyddio, gallant eu hysgwyl pan enwir Haman (fel bydd yr Iddewon yn ei wneud yn ystod gŵyl y Purim).

Eitemau gan y plant

Gweithgarwch o’r gwersi, e.e. crefft, rhigwm.

Emyn/ cân i’r gynulleidfa

Cyflwyniad 3: Cwis: Sut berson ydych chi?

Edrychwch ar y person drws nesaf i chi. Oes yna rywbeth amdanyn nhw sy’n debyg i chi? Beth sy’n wahanol amdanyn nhw?

Pwy yma sydd yn hoffi cwstard?

Pwy sy’n hoffi pwdin reis?

Pwy sydd yn hoffi gwrando ar Bryn Terfel yn canu?

Pwy sydd yn hoffi gwrando ar Cheryl Cole yn canu?

Pwy sydd yn hoffi gwyllo criced?

Pwy sydd yn hoffi gwyllo pêl droed?

Pwy sydd wedi ei eni yn Lloegr?

Pwy sydd wedi ei eni mewn gwlad dramor?

Pwy sy’n gallu cyffwrdd ei draed heb blygu ei bengliniau?

Pwy fuasai’n licio petaent yn gallu cyffwrdd eu traed heb blygu eu pengliniau?!

Pwy sy’n hoffi gwyllo “Rownd a Rownd”?

Pwy sy’n hoffi gwyllo “Coronation Street”?

Pwy sydd yn gwyllo’r newyddion a rhaglenni dogfen yn unig?

Fel y gwelwch chi o’r ymateb, rydyn ni i gyd yn wahanol.

Cymhwysio i’r oedolion/ plant:

Mae yna dri pheth y gallwn fod yn meddwl amdanyn nhw wrth feddwl am hanes Esther:



Gwasanaeth Teuluol Esther - Llyfr Esther

1. Yn gyntaf, gallwn feddwl am bobl sy'n wahanol i ni, a sut yr ydym yn teimlo amdanynt.

Roedd Esther yn wahanol am ei bod hi'n un o bobl Dduw ac yn addoli Duw yn unig.

Roedd hynny yn ei gwneud hi'n wahanol iawn yn y wlad lle'r oedd hi'n byw, am nad y wlad honno oedd ei chartref go iawn. Yng nghyfnod ei thaid, roedd ei theulu wedi cael eu cymryd yn gaethweision i Fabilon, ac roedd teulu Esther wedi byw yng ngwlad fawr Persia ers hynny.

Doedd pobl y wlad ddim yn ofnadwy o hoff o'r Iddewon. Roedd yna rai fel Haman, oedd hyd yn oed yn eu casáu!

Tybed sut y byddwn ni'n ymateb i bobl wahanol, e.e. pobl o wlad arall, pobl yn siarad iaith wahanol, pobl o liw croen gwahanol, yn hoffi pethau gwahanol, yn edrych yn wahanol, yn ymddwyn yn wahanol, yn byw eu bywyd yn wahanol?

Pe bai plant newydd yn cyrraedd yr ysgol, neu deulu newydd yn symud i'r pentref, neu'r stryd, tybed beth fyddem ni'n ei wneud? Beth petaent yn wahanol iawn i ni?

Sut y dylen ni ymateb?

Mae lesu'n ein dysgu ein bod i garu pobl eraill fel yr ydym ni'n caru ein hunain.

Rydyn ni angen disgleirio dros Dduw trwy ddangos ei gariad at bawb, pwy bynnag ydyn nhw.

2. Yr ail beth i ni feddwl amdano yw'r ffordd y defnyddiodd Duw Esther i achub ei bobl. Pan aeth Mordecai at Esther i ddweud wrthi fod angen iddi helpu ei phobl, dyma ddwedodd: **“Pwy a wŷr nad ar gyfer y fath amser â hwn y daethost i'r frenhiniaeth?”**

Esther 4 adnod 4b.

Roedd Duw yn gwybod fod Esther yn mynd i fod yn frenhines. Roedd Duw wedi gwneud Esther yn ddel ac yn ddoeth ac yn ddewr. Roedd Duw yn gwybod fod Haman yn mynd i gynllunio'n greulon yn erbyn yr Iddewon. Gosododd Duw Esther yn y lle iawn ar yr amser cywir i wneud gwahaniaeth mawr, mawr.

Roedd Esther yn ddewr iawn. Er ei bod wedi gorfod rhoi ei hun mewn perygl mawr, roedd hi'n barod i sefyll dros ei phobl er mwyn eu hachub. Yn y lluniau welsom ni, roedd yna bob math o bobl yn achub pobl eraill o sefyllfaoedd peryglus iawn.

Mae hanes Esther yn ein hatgoffa fod yna rywun arall wedi dod, cannoedd o flynyddoedd ar ôl Esther, a oedd yn barod i roi ei hun er mwyn achub pobl y byd i gyd. Ydych chi'n gwybod pwy oedd hwnnw? Iesu oedd o. Er mwyn ein hachub ni i gyd, bu'n rhaid i Iesu farw. Ond i ddangos ei fod wedi llwyddo i'n hachub i gyd, daeth Iesu'n ôl yn fyw!

Rydyn ninnau hefyd wedi ein gosod mewn lle arbennig, i fyw yn _____, i fynd i Ysgol _____. Mae wedi ein gosod i fyw drws nesa i bobl arbennig, ac i fod yn rhan o deulu arbennig.

Rydyn ni angen disgleirio dros Dduw yn y lle arbennig y mae Duw wedi ein rhoi ni – yn ein stryd, yn ein hysgol neu'n gwaith, gyda'n teulu a'n ffrindiau.

3. Cwestiwn yw'r trydydd peth i ni feddwl amdano: Sut wyt ti am fod yn seren dros Dduw fel y bu Esther?

Defnyddiodd Esther ei rhodd neu ei dawn a'i dewrder i sefyll dros ei phobl a thros ei ffydd yn Nuw.

Mae gennym ni gyd ddoniau yr ydym wedi eu cael yn rhodd gan Dduw. Efallai ein bod yn dda iawn am wneud i bobl deimlo'n gartrefol, neu yn dda am drefnu pethau, neu yn dda am ddweud pethau caredig wrth bobl eraill. Efallai ein bod yn gallu egluro pethau'n glir, neu yn gallu creu pethau gyda'n dwylo. Tybed sut allwn ni ddefnyddio'r



Gwasanaeth Teuluol Esther - Llyfr Esther

doniau yma i helpu pobl eraill i adnabod Duw? Sut ydyn ni am ddefnyddio ein doniau i ddweud wrth bobl am y ffordd wych y mae Duw wedi ein hachub ni trwy Iesu?

Tybed beth fyddwn ni'n ei wneud pan fydd angen i ni fod yn ddewr a sefyll dros yr hyn sy'n iawn, fel y gwnaeth Esther? Tybed a fyddwn ni'n dweud wrth eraill ein bod ninnau hefyd yn addoli Duw, yr un Duw â Duw Esther?

Dewch i ni feddwl sut y gallwn ddweud wrth bobl am Iesu Grist, a'r ffordd arbennig y mae Iesu wedi achub pobl y byd i gyd, er mwyn i bawb sy'n credu ynddo gael bod yn ffrindiau efo Duw.

Rydyn ni angen disgleirio dros Dduw trwy ddefnyddio'r doniau y mae wedi'u rhoi i ni i ddweud y Newyddion Da am Iesu.

Gweddi

Gydag ymateb cynulleidfaol

Eglurwch wrth y gynulleidfa y dylent ymateb ar ôl y brawddegau gyda'r geiriau:

“Arglwydd, helpa ni i ddisgleirio drosot Ti.”

O, Dad,
Yn ein cartrefi o ddydd i ddydd ...

Yn ein hysgolion neu yn ein gwaith o wythnos i wythnos ...

Yn ein cymunedau o fis i fis ...

Yn ein bywydau'n gyfan o flwyddyn i flwyddyn ...

Rydyn ni eisiau rhannu gobaith dy Newyddion Da ...

Amen

Anogaeth

Yr arweinydd i egluro y bydd y plant yn rhannu sticeri sêr i'r gynulleidfa i'w hatgoffa eu bod yn mynd allan i ddisgleirio dros Dduw. Gallai'r plant rannu'r sêr wrth y drws (dan oruchwyliaeth!) gan gyfarch pawb gyda'r geiriau: *“Ti'n seren i Dduw – disgleiria drosto!”* neu wneud hyn yn ystod yr emyn olaf.

Emyn/ cân i'r gynulleidfa

Awgrymiadau am emynau: Caneuon Ffydd; Tyrd i Ddathlu; Y Cyntaf a'r Olaf

Tyrd i Ddathlu: Rhif 11, 20, 27

Y Cyntaf a'r Olaf: Rhif 3, 21, 23, 32

Caneuon Ffydd: 681 'Dod ar fy mhen', 308 'Newyddion Braf', 798 'Mi benderfynais i ddilyn Iesu'.